Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# #TrafodMaguPlant

## Diweddariad ar yr ymgysylltu ar-lein






Awst 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018
WG34962 ISBN digidol 978 1 78937 239 7

**#TrafodMaguPlant - Y Diweddaraf am ein Gwaith Ymgysylltu Ar-lein**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers cryn amser i gefnogi rhieni i fagu eu plant mewn ffordd bositif, drwy reoli ymddygiad y plant mewn ffordd gadarnhaol, a chynorthwyo eu datblygiad. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd yr hashnodau #TrafodMaguPlant a #TalkParenting i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth am y pwnc. Mae'r adroddiad hwn yn trafod pa mor bell y mae’r sgwrs #TrafodMaguPlant yn cyrraedd ac yn sôn am farn y bobl a gymerodd ran yn yr Arolwg Ymgysylltu Ar-lein.

## Cefndir

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi rhieni, gan gynnwys y bwriad i geisio cefnogaeth trawsbleidiol i ddeddfwriaeth i ddod â'r ‘amddiffyniad cosb resymol' i ben. Nod y ddeddfwriaeth arfaethedig yw ysgogi newid agwedd o ran sut mae rhieni'n magu ac yn disgyblu eu plant. Hynny yw, gwneud cosb gorfforol yn annerbyniol a hyrwyddo dewisiadau amgen, rhai cadarnhaol a phositif.

Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y dudalen ‘TrafodMaguPlant’ a'r hashnod i ddechrau sgwrs a chynyddu ymwybyddiaeth o ymrwymiad y llywodraeth i rianta cadarnhaol a hawliau plant, a'i hymdrechion yn y maes. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd Arolwg Ymgysylltu Ar-lein i gael barn y bobl oedd yn rhan o'r sgwrs #TrafodMaguPlant. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Twitter a Facebook, i hyrwyddo'r ymgyrch ac annog pobl i gymryd rhan yn yr Arolwg Ymgysylltu Ar-lein.

Cynhaliwyd yr arolwg i gynyddu ymwybyddiaeth ac i ysgogi trafodaeth, ac roedd ar gael i bwy bynnag oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y sgwrs #TrafodMaguPlant. Gallai hyn gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni (a phobl nad ydynt yn rhieni), yng Nghymru a thu hwnt. Gan mai arolwg ar-lein ydyw, nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn y boblogaeth gyfan. Fodd bynnag, roedd yn gipolwg defnyddiol o safbwyntiau ar y mater. Caiff y prif bwyntiau eu nodi yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Ffigurau ymgysylltu #TrafodMaguPlant

Cynhaliwyd yr arolwg ymgysylltu ar-lein o 2il Hydref hyd 24ain Tachwedd 2017. Defnyddiwyd y postiad #TrafodMaguPlant a #TalkParenting ar ddau o brif dudalennau Llywodraeth Cymru ar Facebook, sef tudalen ‘Dechrau'n Deg’ a thudalen ‘Magu Plant. Rhowch Amser Iddo’ Dyma'r ffigurau ar gyfer y postiad:

- rhannwyd 153 o weithiau; a
- hoffwyd 34 o weithiau.

Yn yr un cyfnod, dyma'r ffigurau pennaf ar gyfer #TrafodMaguPlant a #Talkparenting ar Twitter:

- Cyfanswm y trydariadau – 452
- Aildrydariadau – 319
- Cyfanswm yr argraffiadau posib – 742,461
- Cyfanswm y 'cyrhaeddiad' posib – 344,192
- Cyfanswm defnyddwyr Twitter – 152
- Nifer y dilynwyr ar gyfartaledd – 2,264

Yna, dilynwyd y sgwrs #TrafodMaguPlant anffurfiol gan ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i atal cosbi plant yn gorfforol drwy ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol, rhwng 9 Ionawr a 2 Ebrill 2018[1]. Defnyddiwyd yr hashnod #TrafodMaguPlant eto yn y cyfnod hwn i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Dyma'r ffigurau pennaf ar gyfer y postiad #TrafodMaguPlant / #TalkParenting ar Twitter yn ystod yr ymgynghoriad:

- Cyfanswm y trydariadau – 1,594
- Aildrydariadau – 1,012
- Cyfanswm yr argraffiadau posib – 4,455,845
- Cyfanswm y 'cyrhaeddiad' posib – 817,303
- Cyfanswm defnyddwyr Twitter – 267
- Nifer y dilynwyr ar gyfartaledd – 3,070

Dim ond amcangyfrif o'r ymgysylltu a wnaed a'r ymwybyddiaeth a godwyd drwy #TrafodGofalPlant a roddir gan y ffigurau hyn. Fodd bynnag, mae dadansoddiad yn dangos mai dim ond 9 trydariad a 4 aildrydariad a gafwyd rhwng y ddau gyfnod prysur y soniwyd amdanynt uchod (25 Tachwedd i 8 Ionawr). Nid yw'r cyfnodau hyn yn gyfartal o ran maint, wrth gwrs, ond mae'r ffigurau'n awgrymu bod mwy o ymgysylltu gyda'r hashnod, ac felly mwy o sgwrs ar-lein am y pwnc, yn ystod cyfnodau'r arolwg ymgysylltu ar-lein a'r ymgynghoriad ffurfiol.

**Crynodeb o Arolwg Ymgysylltu Ar-lein #TrafodMaguPlant**

Roedd yr arolwg ymgysylltu ar-lein anffurfiol ar agor i bawb a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y sgwrs ar-lein am fagu plant. Roedd yn cynnwys cwestiynau am:

- reoli ymddygiad plant;
- dealltwriaeth am y gyfraith ar gosbi plant yn gorfforol, ac ystyr 'cosb gorfforol';
- barn ar gosbi plant yn gorfforol; a
- ymwybyddiaeth o wybodaeth a chyngor am rianta cadarnhaol a defnyddioldeb cymorth ym maes magu plant.

Derbyniwyd 1,298 o ymatebion llawn. O'r rhain, roedd 878 (69%) gan bobl a nododd eu bod yn rhieni, yn warcheidwaid cyfreithiol neu'n ofalwyr plentyn llai nag 18 oed.

Roedd y rhan fwyaf (98%) yn cytuno eu bod yn mwynhau treulio amser gyda'u plentyn ac yn teimlo'n hyderus am ymddygiad eu plentyn (92%). Roedd y canlyniadau'n awgrymu bod amrywiaeth o dechnegau wedi'u defnyddio dros y chwe mis diwethaf i reoli ymddygiad plant gyda sawl person yn nodi eu bod wedi defnyddio mwy nag un dechneg. Dyma'r technegau mwyaf poblogaidd a nodwyd: 'canmol ymddygiad da' (90%), 'dweud na' (89%) a 'defnyddio'ch ymddygiad da eich hun i osod enghraifft' (87%). Pan ofynnwyd pa dechnegau oedd fwyaf effeithiol yn gyffredinol, yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd 'canmol ymddygiad da' (56%) ac yna 'rhesymu gyda nhw' (35%) a 'datblygu arfer a threfn ee. gydag amser bwyd ac amser gwely' (30%). Yna, rhoddwyd rhestr o amgylchiadau i ymatebwyr, a gofynnwyd a fyddai'n briodol cosbi plentyn yn gorfforol yn yr amgylchiadau hynny. Roedd y farn ar hyn yn gymysg, ond y rheswm a roddwyd fwyaf ar gyfer pryd y byddai'n briodol defnyddio cosb gorfforol oedd 'pan fetho popeth arall' (roedd 47% yn

[1] Mae canlyniadau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

cytuno â hyn). Yr amgylchiad lleiaf poblogaidd oedd pan fo ‘ymddygiad allan o reolaeth’ (ee. strancio), (roedd 31% yn cytuno â hyn).

Roedd sawl cwestiwn am y gyfraith a chosb gorfforol. Pan ofynnwyd a oeddent yn credu bod y gyfraith yn galluogi rhieni i gosbi eu plant yn gorfforol, roedd tua thri chwarter (74%) o'r farn fod hynny'n wir. Roedd y rhan fwyaf yn credu y byddai'r gyfraith yn caniatáu cosbi corfforol nad oedd yn gadael ôl ar y plentyn (71%) ac roedd tua hanner (48%) yn meddwl y byddai’r gyfraith yn caniatáu cosbi corfforol sy’n achosi i’r croen gochi dros dro. Dim ond ychydig o ymatebwyr oedd o'r farn fod y gyfraith yn caniatáu cosbi corfforol sy'n gadael clais sy'n para am rai dyddiau (1%) neu'n gadael olion a chleisiau sy'n para am fwy na rhai dyddiau ond nad ydynt yn anaf corfforol parhaol (1%). Pan ofynnwyd am eu dealltwriaeth o'r term ‘cosb gorfforol’, dywedodd 58% o ymatebwyr eu bod yn meddwl bod hyn yn golygu ‘cosb gorfforol gyda neu heb declyn’ a dywedodd 21% nad oedden nhw'n siŵr. Yn ogystal, roedd 21% o'r bobl a ymatebodd yn dweud bod cosb gorfforol yn cyfeirio at gam-drin corfforol ac emosiynol ac roedd 17% o'r farn ei fod yn sôn am gosb gorfforol gyda theclyn yn unig (roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb, sy'n esbonio pam nad yw'r canrannau'n dod i gyfanswm o gant).

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr ddewis, o restr, pa ddatganiad sydd agosaf at eu barn nhw ar smacio. Dewisodd yr un ganran o ymatebwyr (sef 36%) y datganiadau canlynol: 'Dw i'n credu ei bod hi bob amser yn anghywir smacio plentyn, a dw i ddim yn ei wneud'; a 'Dw i'n gyffyrddus â'r syniad o smacio plentyn, a byddaf yn gwneud hynny pan fy mod yn meddwl bod angen'; tra bo 27% wedi ateb 'Dw i ddim yn hoffi'r syniad o smacio fy mhlentyn, ond fe wna i pan nad oes dim byd arall yn gweithio'. Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi meddwl fel hyn erioed, ynteu a oedd eu barn wedi newid dros y blynyddoedd. Atebodd rhai eu bod wedi newid eu meddwl ar y pwnc. O'r rheiny a nododd eu bod yn meddwl ei bod ‘bob amser yn anghywir smacio plentyn’, ac na fyddent yn ei wneud fyth, nododd 60% eu bod wedi meddwl hynny erioed, a nododd 12% eu bod wedi anghytuno erioed. O ran y 36% a nododd eu bod yn gyffyrddus â'r syniad o smacio plentyn ac yn gwneud hynny pan fo angen, roedd 88% o'r rheiny wedi cytuno erioed a nododd neb eu bod nhw wedi anghytuno erioed.

Gofynnodd yr arolwg i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno â dau ddatganiad am y gyfraith. Roedd cyfanswm o 63% yn cytuno y dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio eu plant, tra bo 30% yn anghytuno. Pan ofynnwyd a ddylid gwahardd rhieni rhag smacio eu plant yn llwyr, roedd 30% yn cytuno a 64% yn anghytuno. Yn ogystal, nododd 86% o ymatebwyr nad oeddent yn credu y byddai newid y gyfraith o ran defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu plentyn yn newid eu hagwedd tuag at smacio. Dywedodd 8% y byddai'n newid eu hagwedd, a dywedodd 7% nad oedden nhw’n gwybod.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd am y defnydd o wybodaeth a chyngor magu plant. Nododd bron dwy ran o dri o'r ymatebwyr eu bod wedi gweld neu wedi cael gwybodaeth ar fagu plant yn gadarnhaol neu am ddewisiadau amgen i gosb gorfforol. O'r rheiny a ddwedodd eu bod wedi gweld y fath wybodaeth (62%), y ffynonellau mwyaf poblogaidd o gyngor oedd ‘ffrind neu berthynas’ (33%), ‘y rhyngrwyd’ (33%) ac ‘ymwelydd iechyd’ (26%). Yna, gofynnwyd i ymatebwyr a fuodd y wybodaeth a'r cyngor yn help i wella eu sgiliau rhianta neu eu hyder: dywedodd

52% fod yr wybodaeth a'r cyngor wedi helpu a dywedodd 17% nad oedd wedi helpu. Yn ogystal, gofynnwyd i ymatebwyr a oedden nhw wedi clywed am ymgyrch ‘Magu Plant. Rhowch Amser Iddo’ a nodwyd rhai sloganau, megis: *"Bedtimes without the battles”* a *“Bathtime without the tears”.* Dywedodd 20% eu bod wedi clywed am yr ymgyrch, ond dywedodd dros dri chwarter o'r ymatebwyr (77%) nad oedden nhw wedi clywed amdani.

**Crynodeb**

Defnyddiwyd yr hashnod #TrafodMaguPlant a'r tudalennau gwe i ddechrau'r sgwrs am agweddau tuag at arferion rhianta a'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol o ran cosb gorfforol. Fel rhan o hyn, defnyddiwyd Arolwg Ymgysylltu Ar-lein i roi darlun o farn y bobl oedd yn ymgysylltu â #TrafodMaguPlant. Er na ellir cyffredinoli'r canlyniadau, ac er nad ydynt yn cynrychioli barn y boblogaeth gyfan, maent yn dangos bod yr ymatebwyr yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i reoli ymddygiad eu plant. Mae'r canlyniadau hefyd yn awgrymu bod barn yn amrywio ar y defnydd o'r gosb gorfforol a'r gyfraith. O ran cyngor ar fagu plant, mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhieni a gyfrannodd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a bod rhai'n ymwybodol o'r ymgyrch "Magu Plant. Rhowch Amser Iddo".

Yn dilyn y dechrau hwn i'r sgwrs ar-lein, cafodd #TrafodMaguPlant yna’i ddefnyddio i hyrwyddo'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i wahardd cosbi plant yn gorfforol drwy ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol.